100 CBHC RCAHMW

# Amddiffyn y Dref

# The Defence of the Town

Nid oes sicrwydd ynghylch union leoliad llys neu gaer y Tywysogion Cymreig yn Ninbych. Gwyddys mai gwaith Henry de Lacy yw'r castell presennol, y rhoddwyd Dinbych yn rhodd iddo gan Edward I ym 1284. Castell Dinbych oedd canolfan weinyddol a milwrol yr arglwyddiaeth a bu iddo hanes llawn cynnwrf. Gwelwyd ymladd yma am y tro olaf ym 1646 pan lwyddodd i wrthsefyll gwarchae naw mis gan luoedd y Pengrynwyr.

The exact location of the Welsh princes' *llys* or fort at Denbigh is uncertain. The origin of the present castle is firmly established as the work of Henry de Lacy, who was gifted Denbigh by Edward I in 1284. Denbigh Castle was the administrative and military centre of the lordship and had an eventful history. It last saw action in 1646 when it withstood a nine-month siege by Roundhead forces.



De: Cynllun llawr o'r castell yn dangos y camau adeiladu.

Right: A ground plan of the castle showing building phases.



Chwith: Gweddillion y porthdy enfawr gyda thri thŵr. Ystyrir mai'r porthdy hwn, a oedd yn ganolbwynt trawiadol i'r ffasâd, yw un o'r rhai gwychaf a adeiladwyd erioed.

Left: The remains of the monumental, triple-towered gatehouse. The gatehouse, which provided a spectacular focus to the façade, ranks as one of the finest ever built.




Chwith: Cafodd mwy na hanner milltir o furiau tref eu codi ochr yn ochr â'r castell i amddiffyn y rheiny a oedd wedi ymsefydlu yn y fwrdeistref Seisnig. Roedd y rhain yn cynnwys Porth Burgess.

Left: Over half a mile of town walls were built alongside the castle to protect the settlers in the English borough. These included the Burgess Gate.



Mae castell de Lacy yn sefyll ar gopa creigiog sy'n edrych dros Ddyffryn Clwyd, ac mae'n bosibl iddo gael ei adeiladu ar ben castell cynharach o eiddo'r Tywysogion Cymreig, er na chafwyd unrhyw dystiolaeth archaeolegol i gefnogi hyn hyd yma.

On a rocky summit overlooking the Vale of Clwyd, it is speculated that de Lacy's castle overlay an earlier castle of the Welsh princes, but no archaeological evidence has yet supported this.

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
*Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru*

Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales
*National Monuments Record of Wales*

Plas Crug, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 1NJ

*Ffôn/ Telephone:* 01970 621200

www.cbhc.gov.uk / www.rcahmw.gov.uk

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government